



Pennaeth / Headteacher  
MEINIR ROBERTS BAdd.

YSGOL Y GRAIG  
Ffordd y Coleg  
Lôn Talwrn  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7LP  
[www.ysgolygraig.cymru](http://www.ysgolygraig.cymru)



AWDURDOD  
ADDYSG  
YNYS MÔN –



☎ 01248 723092 🖨 01248 750470

15.07.2022

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

#### Dyddiadau Pwysig

18/07/2022 – Diwrnod olaf y plant cyn gwyliau'r haf. Ni fydd angen i'r plant wisgo gwisg ysgol.  
01/09/2022 + 02/09/2022 – yr ysgol ar agor i staff yn unig.  
05/09/2022 – Yr ysgol yn ail-agor i'r plant.  
31/10/2022 – 04/11/2022 – Hanner Tymor  
07/11/2022 - dim ysgol i blant (diwrnod hyfforddiant staff)  
17/02/2022 – dim ysgol i blant (diwrnod hyfforddiant staff)

#### Trefniadau Medi 2022

Amser Cyrraedd a gadael yr ysgol yn Medi

Meithrin: 9.00yb – 11.00yb neu 1.00yh – 3.00yh

Blwyddyn Derbyn – Blwyddyn 2: 8.55yb – 3.05yh

Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6: 8.55yb – 3.15yh

Rhaid i oedolyn cyfrifol ddod â phlant Meithrin – Bl 2 i'r ysgol a'u nôl ar ddiwedd y dydd. Hefyd, rhaid i oedolyn cyfrifol nôl plant Blwyddyn 3 a 4 o'r ysgol ar ddiwedd y dydd.

Clwb Gwarchod Bore a'r Clwb Brecwast

Amseroedd:

Clwb Gwarchod Bore (£1.25 y dydd) 7.55yb – 8.20yb

Clwb Brecwast am ddim 8.20yb – 8.45yb

Ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 7.55yb.

Cinio am Ddim

Mae gan holl blant Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1 yr hawl i ginio am ddim. Gadewch i'r ysgol wybod os yr ydych yn dymuno i'ch plentyn dderbyn cinio ysgol ym mis Medi.

Gwefan Ysgol y Graig

Mae llawlyfr yr ysgol wedi'w ddiweddarau ac i'w weld ar wefan yr ysgol – [www.ysgolygraig.cymru](http://www.ysgolygraig.cymru).

Mae gwybodaeth diweddaraf am Cwricwlwm i Gymru hefyd i'w weld ar y wefan.

Hoffwn ar ran yr ysgol ddiolch i chi gyd am eich cydweithrediad yn ystod y flwyddyn. Er mor heriol bu'r ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cydweithio sydd wedi bodoli rhwng y cartref a'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau fod y plant wedi ffynnu, er gwaethaf Covid.

Yn gywir,

M Roberts, Pennaeth